## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19 Mai 2026 |


***Crynodeb***

- *Gwariant yn y meysydd lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref wedi parhau i fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt.*
- *Sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.*
- *Bydd angen defnyddio £3.2 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i fantoli'r sefyllfa o ddiffyg ariannol yr adrannau.*
- *Fel rhan o'r ymarferiad adolygiad cronfeydd bydd angen neilltuo £1.5 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Diogelu Adeiladau.*
- *Barn y Swyddog Cyllid Statudol yw bod angen cynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor o £6.6 miliwn, fel ei fod yn cynrychioli 2.5% o wariant refeniw gros yr awdurdod, ac yn argymell trosglwyddo'r swm yma o'r Gronfa Strategaeth Ariannol, bydd hyn yn gadael £12.7 miliwn yn weddill yn y gronfa honno.*


### 1. Penderfyniad a geisir

1.1 Derbyn yr adroddiad ac ystyried y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2025/26:

| | *Colofn A* **Gor/(Tan) Wariant Gros 2025/26** | *Colofn B* **Addasiadau a Argymhellir** | *Colofn C* | *Colofn CH* | *Colofn D* **Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£ '000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,381 | (1,281) | | | **100** |
| Plant a Theuluoedd | 3,396 | (3,296) | | | **100** |
| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | (99) | | | | **(99)** |
| Addysg | (24) | | | | **(24)** |
| Economi a Chymuned | 269 | | (269) | | **0** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 407 | (307) | | | **100** |
| Amgylchedd | 1,378 | (22) | | (1,256) | **100** |
| Tai ac Eiddo | (20) | | | | **(20)** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (39) | | | | **(39)** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | (20) | | | | **(20)** |
| Cyllid | (38) | | | | **(38)** |

1.2 Gan nodi bod gwariant sylweddol uwchlaw'r gyllideb gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Amgylchedd yn 2025/26 (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2)** -

- Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn B yn y tabl uchod).
- Cadarnhau'r cymorth ariannol o £269k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach (Gweler colofn C yn y tabl uchod).
- Cyllido'r gorwariant o £1.256 miliwn yn y maes Gwastraff trwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu (Gweler colofn CH yn y tabl uchod).
- Dyrannu bid ariannol o hyd at £800k i'r Adran Tai ac Eiddo i gyllido'r pwysau ar y gwasanaeth llety argyfwng yn 2026/27.
- Ar gyllidebau Corfforaethol:
  - defnyddio (£2.8 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2025/26.
  - y gweddill o (£3.174 miliwn) sydd ei angen i gyllido'r holl ofynion i gael ei gyllido o Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.
  - y tanwariant o (£914k) ar Bremiwm Treth Cyngor yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet.

1.3 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" yng ngholofn D uchod ac yng ngholofn D **Atodiad 1**).

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:

- £6.6 miliwn yn cael ei symud i falansau cyffredinol y Cyngor
- £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa Diogelu Adeiladau.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2025/26 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**. Yn ystod 2025/26 mae tair adran wedi gwario dros filiwn o bunnoedd yn fwy na'u cyllideb. Mae'r symiau i'w cario ymlaen gan yr adrannau (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2025/26'(Colofn D).

3.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion hynny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.2 uchod.

3.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd 2025, rhagwelwyd diffyg cyllidebol o £6.5 miliwn gan yr adrannau, ers hynny, mae gorwariant gan adrannau'r cyngor wedi cynyddu i £6.6 miliwn. Y prif feysydd gorwariant yw'r maes lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref. Mae sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd, ond fod hefyd angen gwneud defnydd o gronfeydd i fantoli'r sefyllfa.

## 4. Sefyllfa Arbedion

4.1 Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma; ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.

4.2 Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.

4.3 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod £47 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

## 5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Mae'r prif faterion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

5.2 **Adran Oedolion Iechyd a Llesiant**

Bu i ddiffyg cyllidebol yr adran leihau i £1.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ceir sefyllfa gymysg gyda gwerth dros £3 miliwn o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r adran yn 2025/26 tra bod arbedion a thoriadau gwerth £1.5 miliwn heb eu gwireddu.

Mae'r pwysau ar y gwasanaethau darparu yn parhau ac yn gyfrifol am £1 miliwn o'r pwysau adrannol, sydd yn bennaf ar orwariant staff a defnydd o staff asiantaeth ar ofal preswyl. Mae'r pwysau yn parhau hefyd ar yr ochr breswyl o Iechyd Meddwl.

Bu gwelliant i sefyllfa ariannol pobl hŷn, sydd o ganlyniad i lai o ddefnydd o gartrefi preifat, lleihad mewn costau gofal cartref, derbyniad grantiau ychwanegol a gwaith sicrhau effeithlonrwydd taliadau uniongyrchol. Yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu derbyniwyd grantiau ychwanegol a bu llai o bwysau ar lety cefnogol, taliadau uniongyrchol ac ar gartrefi preswyl annibynnol.

5.3 **Adran Plant a Theuluoedd**

Ers adolygiad Tachwedd bu cynnydd o un ar ddeg o leoliadau all-sirol gan gynnwys achosion eithriadol o leoliadau heb gofrestriad, sydd fwy costus, sydd wedi arwain at gynnydd yn y diffyg cyllidebol adrannol o £1.9 miliwn i £3.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelwyd pwysau cynyddol hefyd ar gyllideb y Gwasanaeth Ôl-16 ac ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes, ond er y bu lleihad yn y pwysau ar y Gwasanaeth Derwen mae'n parhau i fod yn gorwario £443k ar ddiwedd y flwyddyn.

5.4 **Adran Addysg**

Tanwariant o (£24k) gan yr Adran Addysg. Yn dilyn gorwariant sylweddol ar y maes cludiant ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £384k erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd lleihad mewn costau a derbyniad grantiau ychwanegol. Gwelwyd derbyniad incwm grant uwch ar gyfer cinio am ddim ysgolion cynradd erbyn diwedd y flwyddyn ond bu cynnydd mewn costau un tro yn y maes anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad.

5.5 **Byw'n Iach**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, oedd yn £550k yn 2022/23 a £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r angen am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2025/26 gyda'r swm gofynnol yn £269k erbyn diwedd y flwyddyn.

5.6 **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**

Diffyg cyllidebol o £407k gan yr adran, gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd wedi cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau Priffyrdd. Yn y gwasanaeth Bwrdeistrefol, cyfuniad o bwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau toiledau cyhoeddus, tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Gwelwyd hefyd danwariant pellach ar Orfodaeth Stryd ac ar Dimau Taclus.

5.7 **Adran Amgylchedd**

Adroddir ar ddiffyg cyllidebol o £1.38 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r tueddiad gorwariant yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £1.26 miliwn o'r sefyllfa adrannol. Mae'r gorwariant yn y maes gwastraff i'w gyllido o'r enillion ail-ariannu Parc Adfer ac incwm o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr.

Mae yna nifer o gynlluniau arbedion mewn nifer o wasanaethau gwerth £1.27 miliwn yn llithro sydd hefyd yn rhan o'r darlun. Er y bu lleihad mewn diffyg incwm parcio ers y llynedd, mae'r diffyg yn £464k. Mae tanwariant ar Reolaeth Rhwydwaith Trafnidiaeth, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn lleihau'r gorwariant adrannol a adroddir.

5.8 **Adran Tai ac Eiddo**

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda gwariant ar y maes yn £6.1 miliwn eleni, sydd yn gyson â 2024/25. Mae'r sefyllfa ariannol a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £4.2 miliwn sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a hefyd cyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo â'r pwysau cynyddol.

Yn dilyn adolygiad o'r gwariant ar Ddigartrefedd, awgrymir y dylid dyrannu bid un tro o hyd at £800k i gynorthwyo gyda'r pwysau ar lety argyfwng yn 2026/27.

Bu llithriad o £1.1 miliwn ar y gyllideb cynnal a chadw refeniw corfforaethol yn ystod 2025/26 yn dilyn derbyn grantiau gwerth £2.4 miliwn tuag at gynnal a chadw Addysg yn ystod y flwyddyn. Mae'r llithriad o £1.1 miliwn wedi ei drosglwyddo i gronfa benodol at ddibenion cynnal a chadw i'r dyfodol.

5.9 **Corfforaethol**
Tanwariant o (£3.7 miliwn) ar nifer o benawdau corfforaethol, gan gynnwys darpariaeth arbedion (£1.1 miliwn), dychwelyd cyllidebau a bidiau (£404k) a (£914k) sydd yn berthnasol i Bremiwm Treth Cyngor. Yn dilyn i'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ddod i ben ar ddiwedd Mai 2025, bu i'r cyngor ynghyd â chwe awdurdod gogledd Cymru dderbyn ad-daliad, sydd werth £908k i Wynedd yn ymwneud â gwarged yn deillio o gyfraniadau pensiwn perthnasol i GwE.

5.10 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, a cheisir penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna bedwar cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol ar gau 2025/26.

5.11 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2025/26 yn unig.

5.12 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2026/27, ac mae nifer o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2026/27 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 6. Ysgolion

6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae cyfanswm sirol balansau ysgolion wedi lleihau o £8.3 miliwn ar ddiwedd 2024/25 i £7.1 miliwn ar ddiwedd 2025/26. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

6.3 Mae saith ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid a'r Adran Addysg yn gweithio gyda'r ysgolion a chyrff llywodraethol i adfer y diffygion.

## 7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un tro ar nifer o benawdau'r gyllideb gorfforaethol eleni, fel y nodir yn 5.9 uchod, a rhan olaf **Atodiad 2**. Adroddir ar danwariant o (£3.7 miliwn), gyda gwerth (£914k) o'r swm yn berthnasol i Bremiwm Treth Cyngor. Awgrymir fod tanwariant net o (£2.8 miliwn) yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2025/26.

7.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Fel yr amlinellir yn **Atodiad 3**, mae dau drosglwyddiad gwerth £8.1 miliwn i'w gweithredu o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol, gyda £6.5 miliwn yn cael ei roi ym malansau cyffredinol y Cyngor a £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa diogelu adeiladau yn ymwneud â Corbett Arms, sydd wedi bod yn destun adroddiad Cabinet 16 Rhagfyr 2025.

7.3 Ymhellach i'r uchod, awgrymir fod y £3.2 miliwn sydd yn ofynnol i gyllido'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ariannu o Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol.

## 8. Casgliad

8.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar wariant adrannau unigol a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2025/26 o'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd ym Mawrth 2025. Adroddir ar sefyllfa o ddiffyg cyllidebol o £6.6 miliwn gan yr adrannau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan danwariant o £3.7 miliwn ar gyllidebau corfforaethol i roi gorwariant net o £2.9 miliwn ar gyfer y Cyngor (Colofn A, **Atodiad 1**).

8.2 Yn dilyn y tanwariant ar benawdau corfforaethol ynghyd â defnydd o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol a chronfeydd penodol eraill i gyllido'r gorwariant yn y maes gwastraff, bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei fantoli.

8.3 Bydd cyfuniad o gynaeafu cronfeydd gwerth £8.1 miliwn ynghyd â £3.2 miliwn i gyllido'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn golygu fod y Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol yn cael ei leihau £11.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan adael balans o £12.7 miliwn.

## 9. Camau nesaf ac amserlen

9.1 Byddwn yn ystyried y wybodaeth gan adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

9.2 Fe adlewyrchir yma sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod a'r broses i derfyn, gallai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

9.3 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2025/26 i'w hardystio gan y Pennaeth Cyllid o fewn yr amserlen statudol. Bydd yr adroddiad alldro yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Mai 2026.

## 10. Sylwadau Swyddogion Statudol

10.1 **Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

10.2 **Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adolygiad o Gronfeydd